

Cod ar gyfer Atal Gwahaniaethu Amhriodol rhwng Hysbysebwy'r Darlledu

Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Cod hwn yn berthnasol i hysbysebu ar wasanaethau radio a theledu a reoleiddir gan Ofcom. Nid yw'n berthnasol i wasanaethau'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded neu gymorth grant.
- 1.2 Daw'r Cod hwn i rym ar 27 Chwefror 2012.

Pwrpas y Cod

- 2.1 O dan adran 319 o Ddeddf Cyfathrebu 2003 ("y Ddeddf"), mae gan Ofcom ddyletswydd i bennu safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni sydd i fod yn rhan o wasanaethau teledu a radio, mewn un neu fwy o godau. O dan adran 319(2), un o'r amcanion y mae'n rhaid i Ofcom ei sicrhau ar gyfer safonau drwy godau o'r fath yw nad oes "unrhyw wahaniaethu amhriodol rhwng hysbysebwy'r sy'n ceisio cael hysbysebion wedi'u cynnwys ar wasanaethau teledu a radio"¹.

Gweithredu'r Cod

- 3.1 Mae Adran 325 o'r Ddeddf yn galw ar i Ofcom gynnwys amodau mewn trwyddedau a gyhoeddir o dan Ddeddfau Darlledu 1990 ac 1996 er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a bennir mewn unrhyw god.
- 3.2 Mae'r Cod hwn yn cynrychioli cod at ddibenion adran 319 ac mae'n ofynnol i'r rhai sy'n meddu ar drwyddedau darlledu gydymffurfio â thelerau'r Cod hwn o dan amodau eu trwyddedau.
- 3.3 Dylai darlledwyr gadw mewn cof y cefndir deddfwriaethol a fu'n sail i'r Rheolau, yr egwyddorion sy'n berthnasol i bob adran, yr ystyron a roddwyd gan Ofcom a'r arweiniad a roddwyd gan Ofcom, yn y Cod hwn ac yng Nghod Darlledu Ofcom. Gall y rhain i gyd fod yn berthnasol wrth ddehongli a chymhwyso'r Rheolau yn y Cod hwn. Dylai darlledwyr feddwl yn yr un modd am bwrpas a gofynion Cod Hysbysebu'r DU ym maes Darlledu (Cod BCAP)².

Rheolau

- 4.1 **Ni ddylai darlledwr teledu wahaniaethu'n amhriodol rhwng hysbysebwy'r³ sy'n ceisio cael hysbysebion wedi'u cynnwys yn ei wasanaeth trwyddedig.**

¹ Gweler adrannau 319(1), 319(2)(k) a 319(3) o'r Ddeddf.

² Ar gael yn:

<http://bcap.org.uk/The-Codes/BCAP-Code.aspx>

³ At ddibenion eglurder, mae 'hysbysebw'r' yn cynnwys unrhyw endid masnachol neu anfasnachol, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hynny.

Hysbysebu

Mae hysbysebu yn “unrhyw ffurf ar gyhoeddiad a ddarllidir boed yn gyfnewid am dâl neu gydnabyddiaeth debyg arall neu a ddarllidir at ddibenion hunanhyrwyddo gan fenter gyhoeddus neu breifat neu berson naturiol mewn cysylltiad â masnach, busnes, crefft neu broffesiwn er mwyn hyrwyddo cyflenwi nwyddau neu wasanaethau, gan gynnwys eiddo ansymudol, hawliau a rhwymedigaethau, yn gyfnewid am dâl⁴.

4.2 Ni ddylai darlledwr radio wahaniaethu’n amhriodol rhwng hysbysebwyrr sy’n ceisio cael unrhyw gyfathrebu masnachol wedi’i gynnwys yn ei wasanaeth trwyddedig.

Cyfathrebu Masnachol

Ar y radio, mae hwn yn hysbyseb sbot neu’n gyfeiriad masnachol⁵.

Canllawiau

- 5.1 Mae’r Rheolau’n atal darlledwyr rhag ymarfer gwahaniaethu amhriodol rhwng hysbysebwyrr sy’n ceisio cael eu hysbysebion wedi’u cynnwys fel rhan o wasanaeth teledu neu gyfathrebu masnachol a gynhwysir mewn gwasanaeth radio.
- 5.2 Bydd unrhyw ystyriaeth i ba un ai yw darlledwr sydd wedi’i drwyddedu gan Ofcom wedi ymwneud â gwahaniaethu amhriodol yn broses o ddau gam. I ddechrau, bydd Ofcom yn asesu i weld a yw’r trwyddedai wedi gwahaniaethu rhwng hysbysebwyrr. Os ydyw, bydd Ofcom yn symud ymlaen i ystyried a oedd y gwahaniaethu o’r fath yn amhriodol.
- 5.3 Yn y cyd-destun hwn, ystyr gwahaniaethu yw nad yw’r trwyddedai’n adlewyrchu gwahaniaethau perthnasol (nac yn adlewyrchu tebygrwydd perthnasol) rhwng amgylchiadau hysbysebwyrr wrth benderfynu i gynnwys hysbysebion neu beidio fel rhan o’u gwasanaeth trwyddedig, a’r telerau y mae’r trwyddedai’n eu defnyddio i gytuno ar ddarlledu’r hysbysebu o dan sylw. Gall gwahaniaethu ddigwydd lle mae trwyddedai yn trin un hysbysebwr trydydd parti mewn ffordd wahanol i un arall a lle mae’n cynnig telerau mwy ffafriol iddo’i hun neu i gwmni cysylltiedig.
- 5.4 Ni fydd pob ffurf ar driniaeth wahanol yn cyfrif fel gwahaniaethu oherwydd efallai nad yw’r hysbysebwyrr mewn sefyllfaoedd cymharol. Felly, bydd rhaid i Ofcom ystyried

⁴ Mae’r diffiniad hwn yn deillio o’r diffiniad o “hysbysebu ar y teledu” yn Erthygl 1(i) o’r Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yn:

<http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2010:095:0001:0024:EN:PDF>

⁵ ‘Hysbysebu sbot’ a ‘chyfeiriad masnachol’, fel y diffinnir yn Adran Deg o’r Cod Darlledu, yn: <http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/broadcast/831190/section10RADIOpdf.pdf>

unrhyw achosion fesul un i weld a yw'r trwyddedai wedi gwahaniaethu rhwng hysbysebwr mewn gwirionedd.

- 5.5 Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r ffaith bod trwyddedai wedi gwahaniaethu rhwng hysbysebwr yn arwain ynddo'i hun at dorri'r Rheolau. Er mwyn torri'r Rheolau, mae'n rhaid i unrhyw wahaniaethu fod yn "amhriodol".
- 5.6 Felly nid yw'r Rheolau'n golygu ei bod yn ofynnol i'r trwyddedai fod ag arferion tariff sengl ar gyfer hysbysebu ac nid yw Ofcom yn credu y dylai'r Cod hwn atal prisio penodol yn unol ag anghenion darlledwyr a hysbysebwr, os yw cytundebau o'r fath yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr anghenion hysbysebu'n cael eu diwallu. Gall y prisiau a godir ar wahanol hysbysebwr amrywio oherwydd ystod o ffactorau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) lefel y galw am y cynnyrch arbennig hwnnw, argaeledd yr effeithiau penodol (e.e. brig), demograffeg neu slotiau penodol, a thelerau ac amodau eraill sydd wedi'u cynnwys hefyd yn y cytundeb.
- 5.7 Rydym hefyd yn sylwi bod llawer o hysbysebwr yn defnyddio prynwr amser ar lle ar y cyfryngau i drafod gyda darlledwyr ar eu rhan. O ganlyniad, mae llawer o gytundebau'r hysbysebwr gyda phrynwr amser a lle ar y cyfryngau yn hytrach nag yn uniongyrchol gyda'r trwyddedai. Nid yw'r Cod hwn yn cynnwys perthnasoedd masnachol rhwng prynwr amser a lle ar y cyfryngau a hysbysebwr.
- 5.8 Ni fydd y gwahaniaethu'n amhriodol os gellir ei gyfiawnhau'n wrthrychol. Efallai fod rhesymau amrywiol dros y gwahaniaethau o ran telerau ac amodau, ac argaeledd amser ar yr awyr, rhwng hysbysebwr. Mae'r enghreifftiau isod yn rhestr fras o enghreifftiau o gyfiawnhad gwrthrychol posibl. Fodd bynnag, bydd pob cwyn yn cael sylw fesul un, gan roi ystyriaeth i amgylchiadau unigol bob achos.
- Os yw trwyddedai'n dewis cynnwys hysbysebion un elusen am ddim ac os yw'n mynnu tâl am gynnwys hysbysebion elusen arall, gall hyn fod yn wahaniaethu os yw natur a phwrpas yr hysbysebion yn debyg. Fodd bynnag, efallai fod modd cyfiawnhau hyn yn wrthrychol os, er enghraifft, yw'r sianel neu'r orsaf wedi dewis cefnogi elusen arbennig fel rhan o bolisi cyfrifoldeb cymdeithasol.
 - Os yw trwyddedai'n gwrthod darlledu hysbyseb am resymau cyfreithiol neu foesol, efallai nad yw hyn yn cyfrif fel gwahaniaethu amhriodol mewn perthynas â hysbysebwr eraill. O ganlyniad, gall trwyddedai ddewis peidio â darlledu categori penodol o hysbysebion (e.e. gwasanaethau gamblo) neu efallai fod amgylchiadau arbennig lle bydd yn dewis peidio â darlledu hysbyseb gan barti penodol ar sail gyfreithiol neu foesol. Yn unol â hynny, efallai fod gan drwyddedai hawl i wrthod darlledu hysbyseb o'r fath.
 - Gall ffurfiau eraill o gyfiawnhad gwrthrychol gynnwys sefyllfaoedd lle ceir amheuaeth ynghylch sefyllfa gredyd hysbysebwr arbennig, a gall hynny gyfiawnhau gwarant ychwanegol neu wrthod gofod hysbysebu yn llwyr.
 - Efallai fod cyfiawnhad gwrthrychol wrth i drwyddedai wneud addasiadau technegol penodol er mwyn darlledu ymgyrch hysbysebu ar gyfer un hysbysebwr,

Ile mae'r ymgyrch yn arwyddocaol o ran hyd a gwariant, ond peidio â gwneud addasiadau technegol tebyg ar gyfer hysbyseb byr, gwerth isel.

- 5.9 Hefyd mae gan Ofcom bwerau a dyletswyddau mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth. Wrth i hysbysebwr fynegi pryderon mewn perthynas â gwahaniaethu, efallai bydd rhaid i Ofcom ystyried a yw trefniant neu ymddygiad yn dwyn rhagfarn mewn perthynas â chystadlu teg ac effeithiol. Cyn ymarfer unrhyw bwerau gorfodi o dan y Cod er mwyn gwarchod cystadleuaeth deg ac effeithiol, mae'n ofynnol i Ofcom ystyried a fyddai'n fwy priodol bwrw ymlaen o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, efallai fod pryderon sydd â chysylltiad uniongyrchol â cham-drin pŵer y farchnad, er enghraifft, neu gytundebau sy'n ceisio ystumio'r gystadleuaeth, yn fwy priodol os cânt sylw o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998.

Cwynion

- 5.10 Os yw hysbysebwr yn credu bod gwahaniaethu amhriodol wedi digwydd yn ei erbyn ac os yw wedi methu trafod setliad gyda'r darlledwr, gall yr hysbysebwr gyflwyno cwyn i Ofcom mewn perthynas â'r gwahaniaethu amhriodol honedig.
- 5.11 Byddai Ofcom yn disgwyl i hysbysebwr a darlledwr geisio setlo unrhyw anghydfod rhyngddynt eu hunain, cyn cyflwyno unrhyw gŵyn.
- 5.12 Os bydd Ofcom yn derbyn cwyn o dan y Cod mewn perthynas â gwahaniaethu amhriodol, bydd Ofcom, yn gyffredinol, yn defnyddio ei weithdrefnau ar gyfer ymchwilio i fynd yn groes i'r safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio. Mae'r rhain ar gael yng ngwefan Ofcom⁶.
- 5.13 Fodd bynnag, os bydd Ofcom yn derbyn cwyn o dan y Cod mewn perthynas â gwahaniaethu amhriodol ac os ydym ni'n credu bod rhaid i ni ystyried pa un ai yw trefniant neu ymddygiad yn dwyn rhagfarn yn erbyn cystadleuaeth deg ac effeithiol, byddwn yn cysylltu â'r sawl a gyflwynodd y gŵyn er mwyn trafod sut ddylid delio â'r gŵyn. Mewn achosion o'r fath, efallai ei bod yn fwy priodol i Ofcom ddefnyddio ei weithdrefnau o dan Ganllawiau Gorfodi Ofcom ar gyfer delio â chwynion am gystadleuaeth⁷.
- 5.14 Adolygir y canllawiau hyn o dro i dro, er mwyn adlewyrchu profiadau Ofcom gydag achosion unigol.

⁶ Ar gael yn:

<http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/complaints-sanctions/?a=0>

⁷ Ar gael yn:

<http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/competition-bulletins/complaints-disputes/>. Mae'r Canllawiau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.